Katharine Haydn Fisher
Prifysgol Salford

1999

Gweithredu CGB y DU – denu pencampwyr ar gyfer rhywogaethau blaenoriaethol

Canllawiau Drafft ar gyfer Partneriaid Arweiniol/ Pwyntiau Cyswllt yn Gweithredu ar Lefelau y Deyrnas Unedig a Lleol

Cynhyrchwyd y canllawiau drafft hyn o ganlyniadau ymchwiliad i mewn i 'r 'ffactorau a arweiniodd at lwyddiant mewn denu Pencampwyr ar gyfer rhywogaethau blaenoriaethol a adnabyddwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig' (gw. Atodiad 1 o'r Nodiadau Cefnogol).

Cynlluniwyd hwy i adlewyrchu ymarferion sefydliadau anllywodraethol (SA) sydd ynghlwm â chadwraeth a chefnogaeth y sector gorfforaethol. Maent yn gweithredu yn gyfan gwbl fel canllaw, ac yn anelu at ddarparu y Partner Arweiniol/Pwynt Cyswllt, p'un ai yw hynny ar lefel leol neu genedlaethol, â gwybodaeth ynglŷn â'r ymarfer gorau pan yn mynd at fentrau bychan i ganolig eu maint (MBC) neu gwmnïau rhyngwladol yn eu tro, am gefnogaeth a nawdd.

Dylai'r nawdd gynrychioli menter newydd; dylid gwneud yn glir na fyddai'n digwydd heb gefnogaeth y Pencampwr. Rhaid gwneud yn siwr ei fod yn ddiddorol a dylid rhoi pwyslais mawr ar yr angen am gefnogaeth i'r rhywogaeth dan sylw. Mae'n hanfodol eich bod chi, y Partner Arweiniol, hefyd yn ei gwneud yn glir eich bod yn mynd i cwrdd ag anghenion y Pencampwr.

Mae nawdd gwirioneddol yn fwy na chyfraniad, mae'n *bartneriaeth* rhwng y Pencampwr a'r Partner Arweiniol. Mae ymrwymo i'r Cynllun Cefnogwyr yn ymrwymiad mawr ac felly mae angen cynllunio difrifol.